# Llannerch-y-medd i Foelfre

**Cyfleusterau ac Amwynderau:**
Llannerch-y-medd - Caffi'r Stesion. Tafarn y Tarw. Siop gyfleustra.
Caffi Traeth Lligwy
Moelfre – Ann's Pantry. The Kinmel Arms.

Toiledau: Lleoliad What3Words
Traeth Lligwy -
///snipe.fizzled.detriment
Maes Parcio Moelfre -
///lends.examples.sharper


**Lleoliadau Stamp:** Sant Tyfrydog, Llandyfrydog. Mihangel Sant, Penrhoslligwy.

## Cyfeiriadau:

1. Dechreuwch o Gaffi'r Stesion a'r maes parcio (Yr Hen Stesion, Stryd y Bont, Llannerch-y-medd LL71 8EU).

2. O'r maes parcio, trowch i'r dde i Stryd y Bont. Dilynwch y ffordd sy'n mynd heibio Eglwys Santes Fair ar eich dde ac ymlaen i fyny'r stryd fawr am 740 medr i gyrraedd y gyffordd ffordd.

**Mae gan Eglwys Santes Fair sylfeini canoloesol, â sylfaen tŵr sy'n goroesi o'r 12fed ganrif wedi'i hymgorffori mewn adeilad a ailadeiladwyd i raddau helaeth ym 1850 gan y pensaer Henry Kennedy. Mae'r adeilad yn rhestredig Gradd II ac yn dal i fod yn dirnod blaenllaw yn y dref. Mae'r both mynwent, sy'n hŷn na llawer o'r eglwys bresennol, yn ddyddiedig 1755 ac yn rhan o sgwâr y farchnad ar un adeg, â thai ar y naill ochr a'r llall.**




3. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd ar gyfer "Maenaddwyn, Brynteg, Benllech". Ar ôl 180 medr, trowch i'r chwith eto i drac fferm â'r arwydd "Tyddyn". Dilynwch y trac tan i chi gyrraedd y fferm. (1 cilomedr)

4. Ychydig cyn y fferm, ewch drwy gât sy'n rhychwantu'r ffordd ac yna bron yn syth, ewch drwy gât fferm arall ar eich dde lle ceir arwydd llwybr troed cyhoeddus. Cerddwch ar hyd ymyl y cae gan gadw i'r dde o'r llwyni eithin i fyny'r allt. Wrth y wal ffin bellaf, mae camfa yn arwain y ffordd i mewn i'r cae nesaf. Dilynwch ymyl y cae eto, i gyfeiriad y môr, tan i chi gyrraedd dau hen gilbost carreg ar yr un llinell â wal. Croeswch y cae nesaf yn syth, tuag at adeiladau fferm wedi'u cuddio mewn casgliad o goed. Ar ôl 190 medr, mae dwy gamfa a phont fach gysylltiol yn arwain trwy ffin gwrych i mewn i'r cae nesaf.

5. Cadwch yn gyffredinol at ochr dde y cae hwn, i gychwyn nesaf at ffin gwrych ac yna adeiladau fferm ac adfeilion. Wrth ffin bellaf y cae, peidiwch â mynd i'r dde yn syth i fuarth y fferm, ond ewch i mewn i'r cae o'ch blaen drwy gât tua 50 medr o'r gornel. Ewch yn syth ar draws y cae nesaf hwn. Gan gerdded tuag at bâr o dyrbinau gwynt â'r môr yn y pellter, daw'r gamfa ar waelod y cae i'r golwg yn araf.

6. Croeswch y ddwy gamfa olynol ac yna ewch ryw fymryn i'r chwith, gan gerdded tuag at adfeilion adeilad a chynhwysydd llong coch. Croeswch y gamfa neu'r gât fferm i gyrraedd y trac a pharhau yn eich blaen. Ar ôl 50 medr, mae camfa ar eich dde yn arwain i mewn i gae. Croeswch y cae hwn o gongl i gongl i gyfeiriad y tai i'r dde o'r tyrbinau gwynt i fynd trwy fwlch mewn wal. Yna, parhewch ar letraws i'ch chwith tuag at gât mochyn fetel. (2.1 cilomedr)

7. Croeswch y ffordd a dilynwch y dramwyfa i Fryn Eglwys tan ei phen. Ewch drwy gât wen i mewn i fuarth fferm ac yna trowch i'r dde eto bron ar unwaith lle mae gât wen arall yn arwain i ffwrdd ar hyd y trac fferm. Lle mae'r trac yn gwyro i'r dde ar ôl mynd heibio padog marchogaeth, parhewch yn syth ymlaen i fyny'r llethr glaswellt i gât llwybr troed fach. Trowch i'r chwith i ymweld ag Eglwys Sant Tyfrydog. (400 medr)

*Mae Eglwys Sant Tyfrydog yn bwynt stamp Llwybr Cybi a Seiriol. **
///hamsters.widgets.myself
SH 4436 8534
**Yn ôl traddodiad, sefydlwyd yr eglwys oddeutu 450 AD gan Sant Tyfrydog, sant Cristnogol cynnar o'r ardal, ac mae'r adeilad presennol yn dyddio o oddeutu 1400 yn bennaf. Bellach yn rhestredig Gradd II*, mae'n nodedig am ei thu mewn seddi caeëdig prin o ddiwedd yr oes Sioraidd a bedyddfaen garreg ganoloesol yn y porth. Cyfeillion Eglwysi Digyfaill sy'n gofalu am yr eglwys bellach.** Darganfyddwch fwy

8. Dychwelwch yr un ffordd ag y daethoch i gychwyn ac yna parhewch tua'r de ar hyd Lôn Leidr. Cadwch i'r chwith wrth y gyffordd ffordd "Ildiwch". Wrth ben y ffordd hon, ar droad i'r chwith, gellir gweld maen hir "Carreg Leidr" ar ben yr arglawdd yn y cae ar y chwith. (1.3 cilomedr)



**Mae llên gwerin yn awgrymu yn awgrymu bod gŵr lleol, "Wil Llaw Flewog", amser maith yn ôl, wedi dwyn Beibl ac arian cymundeb o Eglwys Llandyfrydog. Wrth ddianc ar draws y caeau ger Clorach, daeth wyneb yn wyneb ag ysbryd mewn gŵn. Wedi dychryn, gofynnodd pwy oedd yr ysbryd hwn, a gan ymestyn ei law fe wnaeth yr ysbryd ei droi'n garreg ar unwaith, lle gellir ei weld hyd heddiw.** Darganfyddwch fwy

9. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd T ac ar ôl 100 medr mae bwrdd gwybodaeth ar ochr y ffordd yn disgrifio lleoliad ffynhonnau'r Seintiau.

**Mae un ffynnon yn dal i fodoli ond dim ond y gorchudd concrit drosto y gellir ei weld; edrychwch dros ochr ddeheuol y bont i'r cae i gael gweld. Gall rhywun ddychmygu bod hwn yn fan tawel mewn blynyddoedd a fu lle gallech orffwyso ar ochr y bryn a gwrando ar y nant.**

10. Parhewch tua'r dwyrain ar hyd y B5108 gan fynd heibio rhes o dai ar ôl 700 medr. Ar ôl 400 medr arall, dilynwch ffordd i'r chwith ym Maenaddwyn. Dilynwch hon heibio Fferm Maen cyn troi i'r dde wrth gyffordd T. Cymerwch y troad dde nesaf (200 medr o'r gyffordd T, wrth i'r ffordd droi i'r chwith a ger hen fwrdd gwybodaeth) i fyny trac tarmac. (1.9 cilomedr)

**Mae'r trac tarmac hwn ger safle damwain awyren o'r Ail Ryfel Byd a ddigwyddodd ar 21 Gorffennaf 1941. Gwyliodd faciwîs a oedd yn aros yn nhŷ fferm Fferam ychydig i'r**

**de o'r trac tarmac hwn awyren Defiant Mk1 yn hedfan mewn cylch ar lefel isel. Roedd yr awyren yn perthyn i Sgwadron 456 Llu Awyr Brenhinol Awstralia. Gwelwyd y peilot, Rhingyll A. F. Brooks yn chwifio ei hances boced cyn syrthio i'r cae wrth ochr y tŷ fferm; ni lwyddodd ffermwyr lleol i achub Rhingyll wrth i'r awyren ffrwydro'n fflamau ac mae bellach wedi'i gladdu yng Nghaergybi.** Darganfyddwch fwy

11. Cadwch i'r dde ar hyd y trac preswyl sy'n mynd heibio'r holl dai tan i chi cyrraedd llwybr glaswellt i fyny allt wrth gytiau metel gwyrdd. Dilynwch y llwybr igam ogam hwn dros yr allt a pharhewch ar drac graean wrth i chi ddod i lawr ar yr ochr arall wrth Seren Fore. Mae'r trac graean yn troi'n fwy gwastad a gellir gweld cyfrwy rhwng dau fryn ar eich dde. Cadwch lygad allan am lwybr troed llai ar eich dde sy'n gwahanu oddi wrth y trac, gyferbyn i beilon trydan a nesaf at lwyn helyg ac mae'n parhau dros y cyfrwy. Dilynwch hwn trwy grug tan i chi gyrraedd ffordd fach nesaf at lyn. Trowch i'r dde ac mae mainc o'ch blaen yn cynnig man hyfryd i orffwyso. (800 medr)


**Saib y Pererin**: what3words ///spud.gent.boating. Cyfeirnod grid OS SH 4678 8503

12. Ar ben y llyn, trowch i'r chwith i drac tarmac a dilynwch hwn am 100 medr. Cyn i'r trac ddringo'r allt, trowch i'r dde i lwybr glaswellt o dan beilon trydan ac â thŷ a gardd ar eich ochr dde. Dilynwch y llwybr hwn i gyrraedd maes parcio bach. Mae llwybr troed bach yn mynd allan o ben y maes parcio – dilynwch hwn i fyny'r allt i gyrraedd y pwynt trigonometrig ar ben Mynydd Bodafon. (600 medr)

**Mwynhewch olygfeydd godidog ar draws Llwybr cyfan Cybi a Seiriol o Gaergybi i Benmon. Ar ddiwrnod clir, gallwch weld y morlin cyfan o Ben y Gogarth yr holl ffordd i Ben Llŷn.**

13. Dewch i lawr oddi ar ochr ogleddol y copa ar lwybr bach drwy eithin a grug, gan fynd heibio twmpath carreg bach. Trowch i'r dde wrth gyffordd â llwybr glaswellt a dilynwch hwn am 360 medr i Dyn y Mynydd. Ar ôl cyrraedd y trac graean wrth y tai, trowch i'r dde a dilynwch hân am 500 medr gan gyrraedd ffordd. (1.1 cilomedr)

14. Trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd am 700 medr tan i chi gyrraedd troad sydyn i'r chwith yn y ffordd a'r llwybr i Eglwys Mihangel Sant ar yr ochr dde.



Mae Eglwys Mihangel Sant, Penrhoslligwy, yn bwynt stamp Llwybr Cybi a Seiriol. *

**Mae Eglwys Mihangel Sant yn adeilad canoloesol rhestredig Gradd II* ac yn fan gorffwys i lawer o'r rhai a fu farw yn llongddrylliad y Royal Charter ym 1859. Ymhlith ei nodweddion nodedig mae to o'r 15fed ganrif, carreg wedi'i harysgrifennu o'r 6ed ganrif, a bwa cangell o'r 14eg ganrif, a gwnaed gwaith adfer sylweddol yn y 19eg ganrif gan y pensaer Henry Kennedy.**

15. Ar ôl ymweld â'r eglwys, dychwelwch i'r ffordd a throwch i'r dde ac yna i'r dde eto i lawr y ffordd fach. Dilynwch hon i'r ffordd am 490 medr i gyrraedd llwybr troed ar y chwith. Dilynwch y llwybr troed hwn trwy gae mawr sydd braidd yn gorsiog

i'w bwynt uchaf a gât fferm fetel, ewch drwy'r gât hon ac ewch ar draws y traciau i gyrraedd gât arall, y mae gât i lwybr troed i'r dde ohoni yn arwain at ffordd yr A5025.

16. Croeswch y ffordd yn ofalus i gyrraedd y palmant a throwch i'r chwith. Cerddwch i gyrraedd y gyffordd ffordd nesaf ar gyfer Lôn y Traeth a phan fo'n ddiogel croeswch y ffordd lai i gyrraedd y tai. Rhwng y ddau dŷ mae ffordd fach ag arwydd yn nodi ei bod yn llwybr troed ac yn ffordd breifat. Dilynwch hon ac ewch i lawr y trac i gyrraedd gât fferm ar ôl i'r tai ddod i ben.


17. Ewch drwy'r gât hon ac yn syth ar draws y cae i'r gât mochyn gyferbyn. Parhewch ar y llwybr amlwg, heibio ysgubor ar y dde â gât mochyn ar ei ddiwedd. Pan fydd y llwybr yn arwain allan i drac mwy, ewch i'r chwith ac yna i'r dde ar lwybr llai sy'n eich arwain i faes parcio Traeth Lligwy.

18. Yn y maes parcio, trowch i'r dde ac ewch i'r tir rhyw fymryn gan ddilyn llwybr dros bont garreg fach ac yna allan i bont bren fwy sy'n croesi afon. Cerddwch ymlaen drwy'r twyni tywod / neu ar hyd y traeth i gyrraedd maes parcio arall y traeth.

19. Ailymunwch â Llwybr Arfordir Ynys Môn y gellir dod o hyd iddo i'r dde o faes parcio Traeth Lligwy, ar y llethr glaswellt uwchben y traeth. Mae'n hawdd dilyn y llwybr hwn ac mae'n croesi uwchben traeth hyfryd a ffurfiadau carreg diddorol. Ar ôl 600 medr, mae gât mochyn yn arwain i gae; parhewch ar hyd y ffin ar y llaw chwith i gât arall a llwybr cul sy'n aml yn lleidiog iawn. Mae'r llwybr yn troi i'r chwith ac yn troi'n drac, cadwch i'r chwith wrth i chi fynd heibio wal ardd garreg a pharhewch drwy gât mochyn arall. Mae'r llwybr yn dilyn pen y dibyn ac yn fuan mae mainc syml yn cynnig man tawel i wylio'r môr. (1 cilomedr)

**Saib y Pererin**: what3words ///befitting.follow.stocks. Cyfeirnod grid OS SH 5052 8719

20. Parhewch ar hyd ben y dibyn. Ar ôl 600 medr arall, mae llwybr bach yn arwain dros gamfa garreg ar eich dde i gyrraedd cae a charreg goffa y tu hwnt (y gellir ei gweld o lwybr yr arfordir isod).



**Mae'r garreg goffa yn coffau colled llong deithwyr y Royal Charter, a bywydau'r rhai a fu farw, ym 1859. Roedd y llong yn dychwelyd i Lerpwl o Melbourne yn cludo tua 400 o deithwyr. Datblygodd storm o rym corwynt a gorfodwyd y llong, nad oedd yn gallu symud yn ei blaen, i angori oddi ar draeth Lligwy. Fe wnaeth ceblau angorau'r llong dorri a chodwyd y llong i fyny ar lain o graig. Achosodd hyrddiadau'r tonnau enfawr i'r llong dorri'n ddau. Er gwaethaf ymdrechion achubwyr lleol, y bu farw rhai ohonynt, achubwyd 40 o bobl yn unig. Yn ystod yr wythnosau canlynol, golchwyd cyrff ac eiddo i fyny ar draethau o Amlwch i Landdona. Mae cant a deugain o'r rhai a fu farw wedi'u claddu ym mynwent Sant Gallgo yn Llanallgo. Mae eraill wedi'u claddu mewn mynwentydd lleol cyfagos**.
Darganfyddwch fwy

**Yn fuan ar ôl trychineb y Royal Charter, teithiodd Charles Dickens i Ynys Môn i ymchwilio ac i ysgrifennu am y trychineb. Gellir darllen ei adroddiadau yn '*The Uncommercial Traveller*' a '*The Wreck of the Royal Charter*'.**

*21.* Mae Llwybr Arfordir Ynys Môn yn parhau i lawr i fae bach, dros bont fach ac yna i fyny'r llethr i gât mochyn a pharc carafanau. Parhewch i'r chwith, heibio'r carafanau ac ymunwch â llwybr troed bach wedi'i ffinio â gwrychoedd y tu hwnt. Ar ôl cyrraedd gât mochyn arall, mae'r llwybr yn agor allan i lwybr glaswellt mwy llydan. Gan gadw i'r chwith o waliau'r cae byddwch yn mynd heibio maint wedi'u gosod yn y wal ac yn cynnig lloches dda o'r gwynt. (500 medr)

22. Gan barhau yn agos at yr arfordir, rydych yn cerdded o gwmpas penrhyn byr. Ar ben hwn ceir maint goffa yn coffau'r rhai a achubodd griw llong fasnach Hindlea ym 1959.



**Cafodd yr Hindlea ei dal mewn moroedd tymhestlog ac roedd yn llusgo ei hangor. Gwnaeth Llywiwr Llong yr RNLI, Dic Evans, a phedwar aelod arall o'r criw 10 ymdrech i ddod ochr yn ochr â'r Hindlea gan lwyddo yn y pen draw i achub ei chriw o 8 cyn iddi gael ei chwalu'n ddarnau ar greigiau cyfagos. Rhoddwyd medal aur yr RNLI i Dic Evans (ei gyntaf o ddwy) am ei ymdrech ei ddewrder. Dadorchuddiwyd cerflun o Dic Evans hefyd yn 2004, tair blynedd ar ôl i Dic Evans fawr yn 96 oed, ac mae'n cadw golwg ar Foelfre y tu allan i ganolfan ymwelwyr yr RNLI. Gellid gweld darnau o ysgerbwd yr Hindlea o hyd ar adeg trai distyll wedi'u gwasgaru ar hyd y draethlin islaw' gorsaf gwylwyr y glannau.**
**Dyma fideo o'r hanes hwn: achubiaeth yr Hindlea ar Youtube**

23. Parhewch o gwmpas yr arfordir glaswellt, ac yna glan greigiog, i gyrraedd wal unionsyth isel yn amgylchynu tŷ gwyn. Dilynwch arwydd Llwybr Arfordir Ynys Môn i droi i'r dde. Parhewch heibio gorsaf yr RNLI ac yna canolfan ymwelwyr yr RNLI. Yma, byddwch yn canfod y cerflun o Dic Evans yn ogystal â gwaith celf coffaol a chydnabyddiaeth o drychineb y Royal Charter. Parhewch ar hyd y llwybr tan i chi gyrraedd ffordd, lle'r ydych yn troi i'r chwith. Mae llwybr rhyw fymryn i lawr allt yn mynd â chi i draeth Moelfre.

**Mae Moelfre yn bentref morol hanesyddol â gwreiddiau yn dyddio'n ôl i 6000 CC. Mae'n enwog am ei ddiwydiant pysgota yn y 19eg ganrif a'i achubiadau bad achub arwrol ers 1854.**

24. O'r traeth, dilynwch y ffordd o gwmpas, gan fynd heibio Ann's Pantry. Dilynwch y ffordd i fyny ac yna ewch i'r dde wrth y gyffordd ffordd. Yma, byddwch yn gweld safle bws ag amserlen. Ceir maes parcio mawr a thoiledau cyhoeddus gyferbyn â'r safle bws.